



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau
Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

Ionawr 2019

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

CYNNWYS

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	2
Manylion yr ymatebion fesul cwestiwn	4
Yr hyn a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn	14
Atodiad 1: Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad	15
Atodiad 2: Ymatebion a Dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad	17

CYFLWYNIAD

Mae Rheoliadau Drafft Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019 ("y rheoliadau Drafft") i'w gwneud yn unol ag adrannau 94(1)(b) a 94(3) o Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Byddant yn ei gwneud hi'n bosibl i'r "gwrthrychau" a ddiffinnir yn y Rheoliadau drafft hynny gael eu cynnwys yn y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a ddarperir yn Rhan 5 o'r Ddeddf. Mae Rhan 5 yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plant a phobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru ac fe'i cyflwynwyd ym mis Chwefror 2018. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc o dan 18 oed yng Nghymru gan ddefnyddio eitemau o emwaith. Bydd cyflwyno'r Rheoliadau drafft yn ehangu cwrdd y gwaharddiad er mwyn i'r "gwrthrychau" a ddiffinnir yn y Rheoliadau drafft gael eu cynnwys yn yr un modd â gemwaith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft ac asesiadau effaith cysylltiedig rhwng 30 Gorffennaf ac 19 Hydref 2018. Wedi hynny buom yn cnoi cil dros yr ymatebion a'r hyn y bydd angen inni ei wneud o bosib yng ngoleuni'r ymatebion hynny er mwyn cyflwyno'r rheoliadau'n ffurfiol.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ac yn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd, ac yn amlinellu beth fyddwn yn ei wneud nesaf.

Mae modd gweld Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) drwy ddilyn y ddolen we ganlynol:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh>

CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Manylion yr Ymatebion a Gafwyd

Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan amrywiaeth o sectorau. Gallai'r ymatebwyr ddefnyddio templed y ffurflen ymateb ar ffurf copi caled neu ar ffurf electronig, neu gallent ymateb drwy lythyr neu e-bost neu ddefnyddio'r ffurflen arolwg ar-lein a ddarparwyd. Nodir dadansoddiad o'r ymatebion fesul math o sector isod:

Academaidd	0
Sefydliad Cynrychioliadol	3
Llywodraeth	0
Llywodraeth Leol	4
Iechyd	0
Iechyd y Cyhoedd	2
Y Diwydiant Tyllu	4
Personol*	1
Cyfanswm	14

Gellid gosod nifer o'r ymatebwyr hyn i fwy nag un categori. Os felly, categoriwyd yr ymatebydd yn ôl ei brif swyddogaeth.

Cyfrinachedd

Gofynnwyd i bob ymatebydd ymateb i'r cwestiwn canlynol ynglŷn â chyfrinachedd.

'Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i ni gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch yma.'

Dywedodd un ymatebydd yr hoffai i'w ymateb fod yn ddienw. Cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "Dienw - (categori o sector penodol)".

* Nid yw un ymateb ar lein wedi ei gyhoeddi, er na ofynnodd yr ymatebydd am fod yn ddienw. Mae hyn oherwydd bod yr ymateb yn cynnwys gwybodaeth sensitif a allai fod yn fodd o ddatgelu hunaniaeth yr ymatebydd. Nodwyd ac ystyriwyd cynnwys yr ymateb yn rhan o'r ymgynghoriad. Mae gweithredu yn y modd hwn yn unol â'r Canllaw Ymgynghori ar Bolisi a Deddfwriaeth (Adran 12).

Yr Ymatebion a Gafwyd

Bu i fwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wneud hynny drwy e-bost neu'r ffurflen ymateb ar-lein. Gwnaeth rhai ymatebion ateb pob cwestiwn yn uniongyrchol, dewisodd eraill ymateb i ddetholiad o'r cwestiynau ac ni chyfeiriodd eraill at y cwestiynau'n uniongyrchol ond gwnaethant ysgrifennu am y materion cyffredinol yr oeddent am eu codi.

Roedd pob ymateb i'r ymgynghoriad yn Saesneg. Polisi Llywodraeth Cymru yw mai dim ond yn yr iaith y'u cyflwynwyd y cyhoeddir ymatebion i ymgynghoriadau, heb eu cyfieithu. Felly cyflwynir yr ymatebion yma yn unol â hynny.

Atodir rhestr o'r rheini a wahoddwyd i ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1. Atodir testun yr ymatebion a gafwyd yn **Atodiad 2**. Rydym ni wedi cyflwyno'r ymatebion yn **Atodiad 2** mewn diwyg cyson er eglurder, ond mae testun yr ymatebion wedi ei gynnwys yn llawn, heb ei ddiwygio, ar wahân i ddileu enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt, a gan eithrio'r un ymateb personol fel yr eglurwyd uchod.

Derbyniwyd tri ymateb rhannol drwy'r ffurflen ar-lein na ellid eu cynnwys oherwydd na chawsant eu cyflwyno'n ffurfiol. Yn unol â rheoliadau diogelu data, mae'n rhaid diystyru ymatebion na chawsant eu cyflwyno oherwydd, yn dechnegol, ni roddwyd caniatâd i ddefnyddio'r ymateb. Nid yw'r tri ymateb o'r math hwn wedi eu cynnwys felly yn y ddogfen hon.

MANYLION AM YR YMATEBION FESUL CWESTIWN

Cwestiwn 1

Yn eich barn chi, a ydym ni wedi diffinio'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft of yn Atodiad A)?

Trosolwg

Derbyniwyd wyth ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn, gyda'r mwyafrif yn mynegi pryder y byddai modd i'r rhestr a ddiffiniwyd gael ei dehongli ar fympwy ac y byddai'n dyddio'n gyflym.

Themâu allweddol yn yr ymatebion

Thema allweddol yn yr ymatebion oedd y manylu ynglŷn â rhai gwrthrychau a'r derminoleg a'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd oherwydd yr angen i sicrhau bod y Rheoliadau'n addas ar gyfer y dyfodol.

Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn cwestiynu'r angen i ddynodi neu restru offer gan gynnig y byddai is-baragraff 2(2)e i gwmpasu popeth yn ddigonol.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai diffiniad gwahanol o dyllu'r corff, h.y. gwneud twll yn y croen neu'r bilen mwcws, yn golygu na fyddai angen rhestru gwrthrychau. Awgrymodd dau ymatebydd os bydd y Rheoliadau'n cynnwys rhestr o 'wrthrychau', yna dylid cael disgrifiad byr o swyddogaeth pob gwrthrych ochr yn ochr â hynny oherwydd bod termau ac enwau yn newid gyda threigl amser ac y gallai defnyddio'r enwau heb ddisgrifiad o swyddogaeth y gwrthrych y cyfeiriwyd ato arwain at broblemau dehongli yn y dyfodol.

Pryder arall a nodwyd oedd y byddai angen diweddarau'r rhestr gwrthrychau o bosib wrth i fathau newydd o dyllu cyrff ddod i'r amlwg, gyda'r derminoleg newydd o bosib.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid cynnwys mewnbliadau croen, dyfeisiau adnabod amledd radio, sglodion neu unrhyw wrthrychau sy'n addasu'r corff. Roedd ymatebydd arall yn pryderu bod y diffiniad o wrthrychau yn y rheoliadau drafft dim ond yn ymwneud â'u defnydd o ran gwneud twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac awgrymodd y dylai'r rheolau o ran y gwrthrychau a ddiffinnir yn y Rheoliadau drafft gwmpasu gwneud unrhyw dwll mewn unrhyw ran o'r corff ar gyfer pobl 18 oed ac iau, ac nid rhannau personol o'r corff yn unig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwn fod rhai ymatebwyr yn gofyn am ddiffiniad o dyllu'r corff. Mae tyllu'r corff a gwneud twll mewn rhan bersonol o'r corff eisoes wedi eu diffinio yn adrannau 94 a 96 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 felly maent y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau hyn.

Rydym ni wedi nodi'r pwyntiau a wnaed ynglŷn â'r derminoleg, dehongli, a pha mor gyflym mae ffasiwn ac arferion yn newid, ac ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'r rheoliadau'n dyddio

heb eu diweddarau'n rheolaidd. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r materion hyn ac yn trafod gyda'n cyfreithwyr sut y mae modd diogelu'r rheoliadau yn effeithiol ar gyfer y dyfodol o ran newidiadau o'r fath os ystyrir nad yw'r cymal cynhwysfawr sydd wedi ei gynnwys yn 2(2)(e) yn rhoi'r diogelwch hwnnw ar gyfer y dyfodol mewn modd effeithiol.

Mae'r dulliau eraill a nodwyd, megis mewnbliadau croen, dyfeisiau adnabod amledd radio, sglodion neu unrhyw wrthrychau sy'n addasu'r corff y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau hyn. Mae modd trafod y materion hyn yn y dyfodol pan gyflwynir cynigion i'w hystyried ynglŷn â dulliau arbennig ychwanegol i'w cynnwys yn unol ag adran 93 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Cwestiwn 2

A yw'r termau a ddefnyddir yn adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A i ragnodi'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin ac yn hollol ddealladwy o fewn y diwydiant tyllu'r corff a chan swyddogion gorfodi?

Trosolwg

Roedd pum ymateb o sylwedd, gyda dau ymateb pellach yn cytuno â'r cwestiwn hwn. Ni roddodd y gweddill unrhyw ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol yn yr ymatebion

Roedd y themâu ar y cyfan yn ategu'r pryderon a fynegwyd mewn cysylltiad â chwestiwn 1, o ran deall terminoleg, yn benodol pan fo gwahanol awdurdodau lleol yn defnyddio termau gwahanol.

Mynegwyd pryderon pellach o ran pa mor gyflym y mae'r diwydiant tyllu cyrff yn newid, a'r angen i'r Rheoliadau terfynol gael eu diogelu'n ddigonol ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod datblygiadau'r dyfodol wedi eu cynnwys yn llawn, a'r angen cydnabyddedig am ddisgrifiadau ychwanegol gydag amser i gynorthwyo dehongliad a gweithrediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel yn ein hymateb i gwestiwn 1, rydym ni wedi nodi'r pwyntiau a wnaed ynglŷn â terminoleg, dehongli a pha mor gyflym y mae ffasiwn ac arferion yn newid, a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r materion hyn gyda'n cyfreithwyr.

Cwestiwn 3

A yw'r diffiniadau eang a ddarperir ar gyfer y “gwrthrychau” a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y byddant yn cynnwys “gwrthrychau” newydd/gwahanol yn y dyfodol?

Trosolwg

Roedd wyth ateb o sylwedd, gydag un ymatebydd yn cyfeirio at y sylwadau a roddodd i gwestiwn 1, a dim ymateb o sylwedd gan y gweddill i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o sylwedd yn crybwyll cael un diffiniad cynhwysfawr o 'gwrthrych'.

Themâu allweddol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o sylwedd yn mynegi pryderon o ran rhestru 'gwrthrychau' penodol, gyda'r ymatebwyr yn dweud y byddai'n well ganddynt gael term 'cynhwysfawr' i gynnwys unrhyw wrthrych arall nad yw'n emwaith. Byddai hyn yn darparu ar gyfer newidiadau mewn terminoleg a dulliau. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys unrhyw addasiadau i'r corff neu driniaeth ymwthiol, ac roedd un arall o'r farn y dylai'r cyfyngiad oedran fod yn berthnasol i'r defnydd o wrthrychau wrth roi unrhyw fath o dwll mewn unrhyw ran o'r corff oherwydd y perygl o greithio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym ni wedi nodi'r cais i gynnwys addasiadau i'r corff a thriniaethau ymwthiol eraill, ond mae hyn y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau hyn. Nodwn y pryderon ynglŷn ag anhawster cadw rhestr fanwl o wrthrychau yn gyfredol ac yn gyson o ran terminoleg. Nodwn hefyd y dymuniad cyffredinol i gael un diffiniad cynhwysfawr o “wrthrych” megis yr hyn a gynigir yn adran 2(2)(e) o'r Rheoliadau drafft a byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth drafod gyda'n cyfreithwyr.

Cwestiwn 4

A yw'r ddogfen Asesiad Effaith Reoleiddiol ddrafft yn Atodiad B1 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

Trosolwg

Cafwyd pum ymateb o sylwedd, un ymateb ychwanegol a oedd yn cytuno â'r cwestiwn a gweddill yr ymatebwyr yn rhoi dim ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweithio mewn awdurdodau lleol ac yn holi ynglŷn â rhai o'r prisiau yn y tabl o fewn yr Asesiad o Effaith Reoleiddiol, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar awdurdodau lleol. Holwyd hefyd ynglŷn â dilysrwydd y niferoedd isel o awdurdodau lleol a ddyfynnwyd yn cefnogi Paneli Arbenigol. Roedd pryderon hefyd y dylai'r costau adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol a fyddai ar swyddogion awdurdodau lleol, yn rhannol oherwydd cyllidebau llai.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwn y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol ynglŷn â chyllidebau llai a dyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. Buom yn gweithio'n helaeth gydag uwch-swyddogion ieuchyd amgylcheddol o ddau awdurdod lleol i drafod sail resymol o ran cyfrifo'r costau yn yr Asesiad o Effaith Reoleiddiol. Cydnabuwyd ar adeg y trafodaethau hyn nad oedd y lefelau staffio a'r cyfraddau cynyddol fesul awr yn gyson rhwng awdurdodau lleol, felly roedd yn rhaid seilio ein cyfrifiadau ar rifau cyfartalog.

Cwestiwn 5

A yw'r dogfennau asesu effaith perthnasol eraill yn Atodiadau B2 i B4 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

Trosolwg

Cafwyd dau ymateb o sylwedd, pedwar arall yn cytuno â'r cwestiwn a'r gweddill ddim yn rhoi unrhyw ateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol

O'r ddau ymateb o sylwedd, dywedodd un yr ymddangosai'r asesiadau effaith yn briodol ond roedd yn tybio sut yr oedd hynny'n cyd-fynd ag amcanion hirdymor ei sefydliad ei hun. Dywedodd y llall na wyddid a oedd yr asesiadau effaith yn fanwl-gywir. Nid oedd unrhyw themâu allweddol yn deillio o'r ymatebion hyn felly.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwyd.

Cwestiwn 6

Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg:

Pa effeithiau y gallent eu cael yn eich barn chi?

Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Trosolwg

Roedd pedwar ymateb o sylwedd, a dim sylwadau gan weddill yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol

Y thema a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion hyn yw bod yn rhaid i'r cyfieithiad o dermau a dulliau penodol fod yn fanwl-gywir a pheidio felly ag arwain at wahaniaethau wrth ddehongli'r rheoliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym ni wedi nodi'r sylwadau hyn ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfieithu manwl-gywir.

Question 7

Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft yn eich barn chi er mwyn:

cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a pheidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Trosolwg

Ni chafwyd unrhyw ymateb o sylwedd i'r cwestiwn hwn.

Themâu allweddol

Ni ddaeth unrhyw themâu allweddol i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn oherwydd cafwyd naill ai dim ymateb, neu ymatebion 'dim sylw'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym ni wedi nodi hyn yn briodol.

SYLWADAU AMRYWIOL

Cwestiwn 8

Unrhyw sylwadau neu arsylwadau cyffredinol eraill? Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol eraill nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.

Trosolwg

Cafwyd naw ymateb o sylwedd, gyda dim sylwadau gan weddill yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Themâu Allweddol

Os cafwyd ymateb mwy cyffredinol i'r ymgynghoriad gan rai heb ddefnyddio'r ffurflen a ddarparwyd, mae eu sylwadau wedi eu hychwanegu at gategori'r cwestiwn hwn. Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn fodd bynnag i egluro neu grynhoi eu hymatebion blaenorol.

- Dywedodd un ymatebydd ei fod yn cytuno â'r cyfyngiad oedran o 18 mlwydd oed ar gyfer angorion croenol a deifwyr croen, ond ei fod yn teimlo y dylid caniatáu tyllu a oedd yn cynnwys plygiau a thwneli o 16 mlwydd oed neu hŷn. Roedd y sylwadau hyn, fodd bynnag, yn ymwneud â thyllau twnnel a thyllau plwg yn y glust.
- Dywedodd un ymatebydd y gallai fod amwysedd neu ddryswch posib wrth ddefnyddio'r term 'twnnel cnawd' sy'n gallu bod yr un lliw â'r cnawd, ond sydd ar gael hefyd mewn gwahanol liwiau. Gallai hyn fod yn fan gwan o ran dehongli'r rheoliadau os caiff twnelau o wahanol liw eu defnyddio wrth wneud twll mewn lle personol ar y corff. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod metalau a deunyddiau newydd yn cael eu defnyddio a fydd o bosib yn ei gwneud hi'n angenrheidiol gwneud newidiadau cyson i'r eitemau a restrwyd yn y Rheoliadau.
- Pwysleisiodd dau ymatebydd y dylai'r rheoliadau gwmpasu'r arfer cyffredin o newid 'gwrthrychau' neu emwaith ar ôl cael twll (lle na wneir twll newydd).
- Holodd un ymatebydd a fyddai angen i rai ymarferwyr newid eu polisïau yswiriant er mwn cynnwys unrhyw addasu i'r rheoliadau.
- Roedd un awdurdod lleol a ymatebodd yn pwysleisio'r gofyniad cydnabyddedig am bwerau ychwanegol i reoleiddio ymarferwyr sy'n defnyddio dulliau arbennig yn wyneb y triniaethau a'r arferion sy'n datblygu'n gyson. Pwysleisiodd fod angen mwy o eglurder o ran a ellid cyfrif rhai triniaethau harddwch yn driniaethau meddygol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolchwn i bawb a ymatebodd am roi o'u hamser i roi sylwadau ar y rheoliadau o dan y cwestiwn hwn. Ni allwn ni newid y cyfyngiad oedran o 18 mlwydd oed o ran rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff parthed gemwaith neu 'wrthrychau', oherwydd bod hyn wedi ei bennu gan ofynion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Rydym ni wedi nodi'r ymholiadau ynglŷn â therminoleg a'r pryderon y gellid osgoi'r rheoliadau, a hefyd y canfyddiad o'r angen parhaus i ddiweddarau'r rhestr o wrthrychau a ddisgrifir.

Rydym ni wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â newid gemwaith neu 'wrthrychau' heb wneud unrhyw dyllau ychwanegol, ond mae hyn y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau hyn. Mae'r sylwadau ynglŷn ag eglurhad ynglŷn â pha un a ddylid cynnwys triniaethau harddwch penodol neu driniaethau cosmetig 'meddygol' hefyd y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau penodol hyn. Fodd bynnag, mae modd trafod y materion hyn yn y dyfodol pan gyflwynir cynigion i'w hystyried parthed dulliau arbennig ychwanegol i'w cynnwys yn unol ag adran 93 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Yr hyn a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn

O ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, rydym ni wedi penderfynu gwneud y canlynol:

- Byddwn yn anfon y canfyddiadau a gyflwynwyd yn y ddogfen hon at Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Byddwn yn trafod gyda'n cyfreithwyr a allwn ni gael gwared ar y rhestr o wrthrychau penodol a chadw un diffiniad cynhwysfawr, neu a oes angen diwygiadau eraill a fydd yn diogelu'r Rheoliadau yn sylweddol rhag datblygiadau mewn arferion tyllu cyrff yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosib yng ngoleuni'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd adeg drafftio'r Rheoliadau, a gynghorodd fod angen rhestru eitemau yn unigol, er mwyn rhoi sicrwydd o ran defnyddio a dehongli, ynghyd â diffiniad cyffredinol er mwyn rhoi diogelwch digonol ar gyfer y dyfodol.
- Ar ôl cael cyngor gan ein cyfreithwyr, byddwn yn gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Rheoliadau yn ddibynnol ar gydsyniad cyffredinol Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Bydd rhagor o wybodaeth am ganlyniad y broses ddeddfwriaethol ar gael i awdurdodau lleol ac ymarferwyr tyllu ar ôl hynny.

Nodyn i'r Fersiwn Cymraeg

Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn Saesneg. Polisi Llywodraeth Cymru yw mai dim ond yn yr iaith y'u cyflwynwyd y cyhoeddir ymatebion i ymgynghoriadau, heb eu cyfieithu. Felly cyflwynir yr ymatebion yma yn unol â hynny.

Atodiad 1

Rhestr Dosbarthu'r Ymgynghoriad

Ymarferwyr Tatŵio a Thyllu Cyrff a sefydliadau proffesiynol

Pobl sydd â diddordeb mewn tatŵio a thyllu ac ymarferwyr a ymatebodd i ymgynghoriadau blaenorol.

Ymarferwyr Tatŵio a Thyllu Cyrff – aelodau o'r grŵp ymgynghori cyfredol ynglŷn â threfniadau trwyddedu arbennig

Tattoo & Piercing Industry Union
Tattoo Club of Great Britain

Cyfanwerthwyr Gemwaith Corff

Sefydliadau Cynrychiolwyr

AGGCC

Cyngor Gofal Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

WCVA

TUC Cymru

CBI Cymru

Ffederasiwn y Busnesau Bach - Cymru

Consortiwm Manwerthu Cymru

British Independent Retailers Association

Forum for Private Business

Sefydliad Safonau Masnach Cymru

Llywodraethwyr Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Y Comisiynydd Plant

Plant yng Nghymru

Llais Disgyblion Cymru

Sefydliad Iechyd Gwledig

Llywodraeth/Llywodraeth Leol

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru

Local Government Regulation

Penaethiaid Safonau Masnach Cymru

Y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig

Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru

Cadeirydd ac Ysgrifennydd, Panel Arbenigol Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan

Cadeirydd ac Ysgrifennydd, Panel Arbenigol Clefydau

Trosglwyddadwy Cymru Gyfan

Aelodau o'r Grŵp Ymgysylltu ar Ddulliau Arbennig o awdurdodau lleol

Iechyd

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Meddygol a
Chyfarwyddwyr Nyrsio:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Y Cyngorau Iechyd Cymuned

Iechyd y Cyhoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
CIEH Wales
Swyddogion Arweiniol Iechyd yr Amgylchedd
Canolfannau Cyfun Cymru ar gyfer Iechyd y Cyhoedd

Atodiad 2

Ymatebion a Dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad

(wedi'u rhifo yn y drefn y derbyniwyd hwy)	Rhif yr ymateb	Tudalen
Carl Tero, Yswiriant Ymarferwyr	01	18
Di-enw – ni chyhoeddwyd yr ymateb oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif	02	19
Ymarferydd	03	19
Ymarferydd	04	19
Ymarferydd	05	20
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	06	20
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr Cymru	07	22
Di-enw (awdurdod lleol)	08	24
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	09	25
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru	10	25
Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru	11	27
Panel Arbenigol Iechyd a Diogelwch Cymru ar ran Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru	12	28
Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan	13	30
Iechyd Cyhoeddus Cymru	14	33

Ymateb 1: Carl Tero – Tattoo Insure – Cwmni Yswiriant Tatwau

Cwestiwn 1: Yn eich barn chi, a ydym ni wedi diffinio'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft of yn Atodiad A)?

No. you could also include dermal implants, rfid chips, any body modification.

Cwestiwn 2: A yw'r termau a ddefnyddir yn adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A i ragnodi'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin ac yn hollol ddealladwy o fewn y diwydiant tyllu'r corff a chan swyddogion gorfodi?

Yes.

Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau eang a ddarperir ar gyfer y "gwrthrychau" a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y byddant yn cynnwys "gwrthrychau" newydd/gwahanol yn y dyfodol?

I would include the term any body modification or invasive treatment on under 18s.

Cwestiwn 4: A yw'r ddogfen Asesiad Effaith Reoleiddiol ddrafft yn Atodiad B1 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

No response.

Cwestiwn 5: A yw'r dogfennau asesu effaith perthnasol eraill yn Atodiadau B2 i B4 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

No response.

Cwestiwn 6: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg:

Pa effeithiau y gallent eu cael yn eich barn chi?

Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Just treat them both the same, with no benefits to either language. everyone should be equal.

Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft yn eich barn chi er mwyn:

cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a pheidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

No response.

Cwestiwn 8: Unrhyw sylwadau neu arsylwadau cyffredinol eraill?

Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol eraill nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.

Would this have any impact on the body piercers current insurance policy which may already allow them to carry out some of these treatments?

Ymateb 2 – Di-enw / Sensitif

Ni chaiff yr ymateb hwn ei gyhoeddi oherwydd bod rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd yn bersonol sensitif.

Pwysleisiodd yr ymatebydd oblygiadau posibl diffyg rheoleiddio yn y diwydiant tyllu cyrff o brofiad personol. Roedd yr ymatebion yn cytuno'n gyffredinol bod y gwrthrychau a ddiffinnir ar hyn o bryd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau.

Ymateb 3 – Ymarferydd – ymateb cyffredinol drwy ebost

I am in agreement with an age restriction of 18 for dermal and divers, as this is already something I enforce.

However, I feel 18 for plugs and tunnels is too high, an age of 16 is much more fair. As to stretch the ear there already needs to be a healed piercing in place. Which would have already been consented for. A stretch can be closed back over time. Finally, it is common for a stretch to be done at home by youngster, which can be far more dangerous than if done safely at a studio.

Ymateb 4 – Ymarferydd - ymateb cyffredinol drwy e-bost

Hello again sorry for the late reply. All the above bullet points listed in the new draft regulations i am in agreement with and currently already employ these rules in my studio. I believe any procedure which can leave scarring or stretched tissue should only be able to be consented to on someone who understands the long term effects and is of adequate age to make these decisions.

Ymateb 5 – Ymarferydd – ymateb cyffredinol drwy ebost

I have read the proposed changes to the new intimate piercing laws and have a number of points to raise.

I think the whole proposal is a little confused. Firstly, the objects listed to be included can not get in to the body without it being pierced first, which would negate the need to highlight those specifically, out of the wide variety of jewellery available. If the thought behind their inclusion is to prevent a body piercer changing the jewellery on a person under age, then the recent changes have clarifications to ensure that this point is clear.

Secondly, the choices of items are a little bizarre. The term 'flesh tunnel' for instance is a colloquialism. The actual piece of item is a silicone tunnel, which is flesh coloured. There are all colours available, so if one were to follow the inclusion to the letter of the law, they could use a black silicone tunnel quite legally.

I also feel that focusing on the different objects available will only lead to many more inclusions being necessary which will be costly and unnecessary. The list provided so far is not exhaustive even if you include the items proposed. There are new metals being produced and worked on which comply with the nickel directive (1994), like Niobium, which appeal to the industry as they give a body piercer more artistic scope in their work. These presumably would need to be added to the list as and when they are made available.

My humble opinion is that if further clarification is needed to help protect people from unscrupulous practitioners, focusing on materials and jewellery types will be confusing, unnecessarily expensive and of little use as those unscrupulous individuals will probably be using substandard materials anyway.

I feel an iron clad description of what a piercing is, ie., breaking of the skin or membrane with any object (which would include dermals/skin divers; along with a similarly unequivocal description of changing of objects within an existing piercing (which would also cover stretching / silicone tunnels) would more than suffice and would require no further changing regardless of new innovations within the industry.

I hope my views are of some interest and if you would like to discuss them any further, please don't hesitate to contact me.

Ymateb 6 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cwestiwn 1: Yn eich barn chi, a ydym ni wedi diffinio'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft of yn Atodiad A)?

Yes. In order to stay ahead of future developments within the industry there is no necessity to specifically list objects. It would suffice to state subparagraph (e) Any other object which is not jewellery" alone as this would not be prescriptive, prove future proof and act as a coverall. Ideally, it would simplify matters if the main Public Health (Wales) Act 2017 could be amended under the definition to avoid additional legislation.

Cwestiwn 2: A yw'r termau a ddefnyddir yn adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A i ragnodi'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin ac yn hollol ddealladwy o fewn y diwydiant tyllu'r corff a chan swyddogion gorfodi?

Yes. For current trends, will it be intended to amend the list for future developments as they arise?

Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau eang a ddarperir ar gyfer y "gwrthrychau" a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y byddant yn cynnwys "gwrthrychau" newydd/gwahanol yn y dyfodol?

Yes. See response to Q1.

Cwestiwn 4: A yw'r ddogfen Asesiad Effaith Reoleiddiol ddrafft yn Atodiad B1 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

Unknown. Query regarding the cost table – refers to 6 SEHO but 22 LA's and all usually have representative at each expert panel meetings. Also refers to 10 EHO per authority but unsure how many have 10 EHO for this purpose and how the £50 per hour rate was determined. No consideration given to technical officer or commercial safety officers. Very difficult to quantify due to the unknown.

Cwestiwn 5: A yw'r dogfennau asesu effaith perthnasol eraill yn Atodiadau B2 i B4 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?

Unknown.

Cwestiwn 6: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg:

Pa effeithiau y gallent eu cael yn eich barn chi?

Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Assuming the draft Regulations are able to be accurately translated they should not have any effect on the Welsh language.

Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft yn eich barn chi er mwyn:

